Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 27 Hydref 2017**

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Andrew Goodall
David Richards
Gawain Evans
Natalie Pearson
Elan Closs Stephens
Ann Keane (Eitemau 1- 6)
Adrian Webb
Peter Kennedy
Dean Medcraft (yn dirprwyo dros James Price)
Jeff Godfrey
James Turner
Gillian Baranski
Carla Lyne
Lynne Schofield
Catherine Ashford

**Yn cefnogi:**
Des Clifford (Eitem 1)
Piers Bisson (Eitem 1)
Jo Salway (Eitem 3)
Andrew Jeffreys (Eitem 4)
Dyfed Alsop (Eitem 4)

**Ysgrifenyddiaeth:**
Sarita Marshall

**Perfformiad Llywodraeth Cymru**

1. **Trefniadau Pontio'r UE [Eitem lafar]**

1.1 Rhoes Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa’r Prif Weinidog a Piers Bisson, Dirprwy Gyfarwyddwr - Trefniadau Pontio Ewropeaidd, ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cynnydd o ran Trefniadau Pontio’r UE. Clywodd y Bwrdd fod ymgyrch drawiadol wedi cael ei rhoi ar waith ar draws y sefydliad i symud ymlaen gyda'r gwaith sylweddol sy'n gysylltiedig â threfniadau pontio'r UE.

1.2 Llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Parhaol dimau ar y gwaith a wnaed hyd yma.

2. **Adroddiad Cyllid [Bwrdd(17)060]**

2.1 Cyflwynodd Gawain Evans, y Cyfarwyddwr Cyllid, bapur yn amlinellu rhagolwg o'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2017-18, gan gynnwys y prif

bwysau, y cronfeydd wrth gefn, y colledion a thaliadau arbennig. Gofynnodd y Bwrdd am ragor o fanylion ynghylch yr wybodaeth am golledion a thaliadau arbennig.

3. **Monitro Cynnydd Cyflawni – Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Drawsbynciol Genedlaethol [Bwrdd(17)059]**

3.1 Cyflwynodd Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, strwythur llywodraethu arfaethedig ar gyfer *Ffyniant i Bawb.* Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Jo a'i thîm am eu gwaith.

3.2 Trafododd y Bwrdd y strwythur a chytuno y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gynnwys y pedwar thema allweddol/cynllun gweithredu yn y strwythur.

3.3 Nodwyd y byddai Grŵp Cyfarwyddwyr *Ffyniant i Bawb* yn cyfarfod yn yr wythnosau i ddod a chytunwyd y dylai ei gylch gwaith gynnwys ystyried themâu trawsbynciol, fel yr iaith Gymraeg.

4 **Awdurdod Cyllid Cymru a Diwygio Cyllidol [Eitem lafar]**

4.1 Rhoes Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, a Dyfed Alsop, Prif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), gyflwyniad ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r pwerau cyllidol newydd, a rôl ACC.

4.2 Clywodd y Bwrdd fod y risgiau i gyflawni yn cael eu rheoli a bod ymarferion sicrwydd allanol yn cael eu cynnal, gan gynnwys adolygiad Gateway Swyddfa Archwilio Cymru (WAO).

4.3 Diolchodd aelodau'r Bwrdd i Andrew a Dyfed am y cyflwyniad, gan gydnabod y llwyddiannau mawr hyd yma, a dymuno’n dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

## Corfforaethol

5 **Y Gofrestr Risg Corfforaethol**

5.1 Adolygodd y Bwrdd y risgiau corfforaethol a thrawsbynciol presennol a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ogystal â risgiau y gellid eu cynnwys neu eu dileu o'r gofrestr.

6 **Diweddariad ar Amrywiaeth a Chynhwysiant**

6.1 Rhoes Gillian Baranski, hyrwyddwr amrywiaeth y Bwrdd, ddiweddariad ar y cynnydd yn erbyn targedau amrywiaeth. Mae'r gwaith a gwblhawyd hyd yma yn cynnwys trafodaethau grwpiau ffocws gyda rhieni newydd i edrych ar y ffordd y gellid eu cefnogi ymhellach wrth iddynt ddychwelyd i'r gwaith.

6.2 Roedd y llwyddiannau a welwyd ers y diweddariad diwethaf ar Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cynnwys:

- adfywio'r Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig;
- Llywodraeth Cymru wedi dod yn sefydliad cyntaf yn y sector cyhoeddus i gael achrediad Disability Confident Lefel 3;
- y strategaeth allgymorth prentisiaethau, sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr o gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac sydd wedi cael eu cydnabod gyda dyfarniad y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.

6.3 Cytunwyd y dylai'r Bwrdd gynnal sesiwn i adolygu'r cynnydd gyda'r rhwydweithiau amrywiaeth staff i gael dealltwriaeth well o'r materion sy'n wynebu eu haelodau pan fyddai'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol newydd yn eu swydd.

6.4 Diolchwyd i Gillian, David Richards fel hyrwyddwr anffurfiol i Materion y Meddwl, a Jo Glenn a gweddill y tîm Cydraddoldeb yn y Gweithle am eu gwaith. Canmolwyd ymdrechion y tîm Cyfathrebu Allanol a Zsanett Shashaty, Rheolwr Allgymorth a Lleoliadau, yn benodol, am fod yn allweddol i'r llwyddiannau a gyflawnwyd.

6.5 Cytunodd aelodau'r Bwrdd:

- dylai datblygu Strategaeth Iechyd a Llesiant annog uwch-weision sifil i ddod yn fodelau rôl ar gyfer y fenter Disability Confident, a dylai gynnwys camau gweithredu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei hystyried yn sefydliad 'diogel' lle y gallai staff fod yn agored am faterion iechyd meddwl;
- y dylid llunio strategaeth allgymorth/adnoddau Cymru Gyfan, a fyddai'n rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned.

**Eitemau Rheolaidd**

**7 Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio [Bwrdd(17)063]**

7.1 Cyflwynodd David Richards bapur yn amlinellu cynigion ar gyfer strwythur gwneud penderfyniadau ar lefel uwch yn y dyfodol wedi'i alinio â gofynion *Ffyniant i Bawb*.

7.2 Croesawodd y Bwrdd y strwythur symlach a chytuno:

- ei bod yn bwysig sicrhau bod cynrychiolaeth gan y busnes ar unrhyw grwpiau a arweinir gan y ganolfan gorfforaethol;
- ei bod yn bwysig cynnwys Cyfarwyddwr Anweithredol;
- y byddai'n bwysig cael cynrychiolaeth briodol o ochr yr undebau llafur;
- ei bod yn bwysig sicrhau bod y Pwyllgor Tâl yn cael ei reoli'n annibynnol ac yn gyson;
- ei bod yn bwysig cael cefnogaeth y busnes ar gyfer y newidiadau.

7.3 Cytunwyd y dylid cyflwyno cynigion pellach i ddangos sut y gallai tri is-bwyllgor arfaethedig y Bwrdd weithredu fwyaf effeithiol.

7.4 Rhoes Natalie Pearson, Pennaeth Ymgysylltu ac Arloesi, ddiweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar baratoi ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys digwyddiad i'r Uwch Wasanaeth Sifil ar weithredu *Ffyniant i Bawb*, datblygu a threialu'r cynigion ar gyfer y cynlluniau rheoli perfformiad newydd, a hyfforddi 90 o hyfforddeion *Future Engage Deliver*. Roedd disgwyl i ddigwyddiad TEDx ar bolisi arloesol a chydweithredol ac ymarfer sganio gallu manwl gael eu cynnal hefyd.

7.5 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Natalie am ei brwdfrydedd a'i hegni.

## 8 Newyddion diweddaraf yr Is-bwyllgorau

8.1 Rhoes Elan Closs Stephens, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ddiweddariad ar gyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor wedi cael cyflwyniad ar weithdrefnau argyfwng/trychineb a nodwyd cyfraniad gwerthfawr y gwirfoddolwyr yn y sefydliad y byddai galw arnynt i sicrhau bod gweithdrefnau yn cael eu gweithredu'n effeithiol mewn argyfwng.

8.2 Hwn fu'r cyfarfod olaf i Adrian Webb, Cyfarwyddwr Anweithredol.

8.3 Adroddodd Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau ESNR a Chadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau, fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gweithrediadau fel sylwedydd. Roedd y Pwyllgor wedi trafod System Rheoli Teithio CTM, y model ceisiadau canolog sy'n cael ei gyflwyno yn ESNR, a'r Rhaglen TGCh y Dyfodol.

8.4 Adroddodd James Turner, Cadeirydd Pwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil, fod trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor wedi cynnwys rheoli Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro, system dâl yr Uwch Wasanaeth Sifil a symud i'r Uwch Wasanaeth Sifil.

8.5 Adroddodd David Richards, fel Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, fod amryw o Filiau mawr a chymhleth yn cael eu datblygu ac y byddai'r tîm yn cynnal archwiliad o ddeddfwriaeth.

## 9 Unrhyw Fater Arall

9.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw aelodau'r Bwrdd at y papurau i'w nodi.

**Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 30 Hydref 2017**